POLISI CWYNION STAFF

Adolygwyd	Cymeradwywyd	Mabwysiadwyd
16/09/2026	16/09/2026 Cyf. Cofnod: 106/2627	16/09/2026

Statws	Wedi'i adolygu, ei gymeradwyo a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ar 16/09/2026
Fersiwn	3.0
Paratowyd	16 Medi 2026 (AJ)
Perchennog y Polisi	Y Cyngor Llawn
Adolygiad Nesaf	12 mis ar ôl ei fabwysiadu, neu'n gynharach os bydd newid sylweddol

Cyflwyniad

1. Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar God Ymarfer ACAS 2015 ac yn cydymffurfio ag ef. (http://www.acas.org.uk/index.aspx?articleid=2174.

2. Mae hefyd yn ystyried canllaw ACAS ar ddisgyblaeth a chwynion yn y gweithle. https://www.acas.org.uk/media/1043/Discipline-and-grievances-at-work-The-Acas-guide/pdf/DG_Guide_Feb_2019.pdf).

3. Mae hefyd yn ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n effeithio ar Gynghorau.

4. Nod y polisi hwn yw annog a chynnal perthynas waith dda rhwng y Cyngor a'i weithwyr drwy drin cwynion o ddifrif a'u datrys cyn gynted â phosibl. Mae'n nodi'r trefniadau i weithwyr godi pryderon, problemau neu gwynion ynglŷn â'u cyflogaeth gyda'r Cyngor. Bydd y polisi'n cael ei weithredu'n deg, yn gyson ac yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

5. Gellir codi a datrys llawer o broblemau fel rhan o berthynas waith arferol o ddydd i ddydd. Dylai gweithwyr geisio datrys y rhan fwyaf o gwynion yn anffurfiol gyda'u rheolwr llinell yn y lle cyntaf.

6. Mae'r polisi hwn yn cadarnhau:

   - Bod gan weithwyr yr hawl i gael cydweithiwr, cynrychiolydd undeb llafur neu swyddog undeb llafur i fynd gyda nhw neu eu cynrychioli mewn cyfarfod cwyn neu apêl. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfarfod a gynhelir i wrando ar y gŵyn, casglu ffeithiau, ei thrafod, ei hystyried neu geisio ei datrys. Caniateir i'r cynrychiolydd siarad yn y cyfarfodydd cwyn neu apêl, cyflwyno achos y gweithiwr a thrafod gyda'r gweithiwr. Ni chaiff y cynrychiolydd ateb cwestiynau ar ran y gweithiwr, siarad yn erbyn dymuniadau'r gweithiwr na'i atal rhag egluro ei achos.

- Bydd y Cyngor yn rhoi rhybudd rhesymol i weithwyr o ddyddiad cyfarfodydd cwyn neu apêl. Rhaid i weithwyr a'u cynrychiolwyr wneud pob ymdrech resymol i fynychu. Os nad yw'r cynrychiolydd ar gael ar y dyddiad a gynigiwyd, gall y gweithiwr ofyn am ohirio'r cyfarfod a chynnig dyddiad arall o fewn pum diwrnod gwaith i'r dyddiad gwreiddiol, oni bai y byddai'n afresymol peidio â chynnig dyddiad hwyrach.
- Rhaid i unrhyw newid i'r terfynau amser a nodwyd gael ei gytuno rhwng y gweithiwr a'r Cyngor.
- Mae gan weithwyr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ynglŷn â'u cwyn. Bydd penderfyniad yr apêl yn derfynol.
- Bydd gwybodaeth ynglŷn â chŵyn gweithiwr yn cael ei chyfyngu i'r rhai sy'n rhan o'r broses gwyno. Bydd cofnod o'r rheswm dros y gŵyn, ei chanlyniad a'r camau a gymerwyd yn gyfrinachol i'r gweithiwr. Bydd cofnodion cwynion gweithwyr yn cael eu cadw gan y Cyngor yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
- Ni chaniateir recordio sain na fideo unrhyw ran o'r weithdrefn gwyno oni bai fod pawb perthnasol yn cytuno bod hynny'n addasiad rhesymol sy'n ystyried cyflwr meddygol y gweithiwr.
- Os bydd gweithiwr sydd eisoes yn destun gweithdrefn ddisgyblu yn codi cwyn, fel arfer ni fydd y gŵyn yn cael ei hystyried tan ar ôl i'r weithdrefn ddisgyblu gael ei chwblhau.
- Os na chaiff cwyn ei chadarnhau, ni fydd unrhyw gamau disgyblu yn cael eu cymryd yn erbyn y gweithiwr os codwyd y gŵyn yn ddidwyll.
- Gall y Cyngor ystyried defnyddio cyfryngu ar unrhyw adeg yn ystod y weithdrefn gwyno lle bo hynny'n briodol, er enghraifft os bu problemau cyfathrebu neu honiadau o fwlio neu aflonyddu. Mae cyfryngu yn broses ar gyfer datrys anghydfod sy'n gofyn am gydsyniad pawb sy'n rhan ohoni.
- Gall cwyn sy'n ymwneud ag ymddygiad cynghorydd godi materion sy'n ymwneud â chyflogaeth a'r Cod Ymddygiad. Gall y Cyngor ystyried materion sy'n ymwneud â lles gweithwyr, perthnasoedd gwaith, diogelwch yn y gweithle a materion cyflogaeth drwy'r weithdrefn hon. Efallai y bydd angen cyfeirio honiadau o dorri Cod Ymddygiad yr Aelodau ar wahân drwy'r broses Cod Ymddygiad neu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, fel y bo'n briodol.
- Gall y Cyngor benodi ymchwilwyr allanol neu baneli cwynion neu apeliadau allanol i gynorthwyo gyda'r broses.
- Os yw gweithiwr o'r farn bod y gŵyn yn ymwneud â'i ddiogelwch yn y gweithle, p'un a yw hefyd yn ymwneud â chwyn yn erbyn cynghorydd ai peidio, dylai godi'r pryderon diogelwch hynny gyda'i reolwr llinell yn ystod cam anffurfiol y weithdrefn gwyno. Bydd y Cyngor yn ystyried a oes angen cymryd camau pellach yn unol ag unrhyw un o'i bolisïau cyflogaeth, er enghraifft ei bolisi iechyd a diogelwch neu ei bolisi urddas yn y gwaith, ac yn unol â'r trefniadau Cod Ymddygiad.

Egwyddorion Cyffredinol

7. Bydd y Cyngor yn sicrhau:

- Na fydd unrhyw gynghorydd sydd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r mater, neu sydd â gwrthdaro buddiant gwirioneddol neu ymddangosiadol, yn ymchwilio i'r gŵyn, yn gwneud penderfyniad arni nac yn gwrando ar unrhyw apêl sy'n deillio o'r un gŵyn.
- Bydd unrhyw gynghorydd sydd â gwrthdaro buddiant gwirioneddol neu ymddangosiadol yn tynnu'n ôl o'r broses.
- Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys ar gyfer anabledd, beichiogrwydd, cyflyrau meddygol neu ofynion iaith.
- Bydd cwynion yn cael eu trin yn deg, yn gyson ac mor gyfrinachol ag sy'n rhesymol bosibl.

Gweithdrefn Gwyno Anffurfiol

8. Mae'n fanteisiol i'r Cyngor a'i weithwyr os caiff cwynion eu datrys yn anffurfiol ac mor gyflym â phosibl. Cyn gynted ag y bydd problem yn codi, dylai'r gweithiwr ei thrafod gyda'i reolwr er mwyn gweld a oes modd dod o hyd i ddatrysiad anffurfiol. Dylai'r ddau wneud pob ymdrech i ddatrys y mater ar y cam hwn.

   Os nad yw'r gweithiwr yn dymuno trafod y gŵyn gyda'i reolwr (er enghraifft, os yw'r gŵyn yn ymwneud â'r rheolwr), dylai gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Staffio neu, os yw'n briodol, aelod arall o'r Pwyllgor Staffio.

   Os yw cwyn y gweithiwr yn ymwneud â chynghorydd, gall fod yn briodol cynnwys y cynghorydd hwnnw yn ystod y cam anffurfiol. Bydd hyn yn gofyn am gydsyniad y gweithiwr a'r cynghorydd.

Gweithdrefn Gwyno Ffurfiol

9. Os nad yw'n bosibl datrys y gŵyn yn anffurfiol, ac nad yw cwyn y gweithiwr yn un y dylid ei thrin fel cwyn o dan y Cod Ymddygiad (gweler uchod), gall y gweithiwr gyflwyno cwyn ffurfiol. Dylid cyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig i Gadeirydd y Pwyllgor Staffio.

10. Bydd y Pwyllgor Staffio yn penodi is-bwyllgor o dri aelod i wrando ar y gŵyn os yw'r gŵyn wedi'i chyflwyno gan y Clerc neu'n ymwneud â'r Clerc. Os nad yw'r gŵyn wedi'i chyflwyno gan y Clerc nac yn ymwneud â'r Clerc, gall y Pwyllgor Staffio benodi'r Clerc i ystyried y gŵyn.

    Bydd yr is-bwyllgor yn penodi Cadeirydd o blith ei aelodau. Ni fydd unrhyw gynghorydd sydd wedi bod yn rhan uniongyrchol o'r mater yn cael ei benodi i'r is-bwyllgor.

Ymchwiliad

11. Os bydd yr is-bwyllgor yn penderfynu bod hynny'n briodol (er enghraifft os yw'r gŵyn yn gymhleth), gall benodi ymchwilydd i gynnal ymchwiliad cyn y cyfarfod cwyn er mwyn sefydlu ffeithiau'r achos. Gall yr ymchwilydd fod yn gyflogai addas, yn gynghorydd neu'n barti allanol. Gall yr ymchwiliad gynnwys cynnal cyfweliadau â'r gweithiwr sy'n cyflwyno'r gŵyn, gweithwyr eraill, cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd.

12. Bydd yr ymchwilydd yn crynhoi ei ganfyddiadau, fel arfer mewn adroddiad ymchwiliad, ac yn cyflwyno'r canfyddiadau hynny i'r is-bwyllgor.

13. Ni chaiff unrhyw un a benodir i ymchwilio i gŵyn eistedd ar unrhyw banel sy'n gwneud penderfyniad ar y gŵyn nac yn gwrando ar apêl sy'n deillio o'r un mater.

Hysbysu

14. Fel arfer, o fewn 14 diwrnod calendr i'r Cyngor dderbyn cwyn y gweithiwr (gall hyn gymryd mwy o amser os oes angen cynnal ymchwiliad), bydd y gweithiwr yn cael gwahoddiad ysgrifenedig i fynychu cyfarfod cwyn. Bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn cynnwys y canlynol:

    - Enwau'r Cadeirydd ac aelodau eraill yr is-bwyllgor.
    - Dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod. Bydd y gweithiwr yn cael rhybudd rhesymol o'r cyfarfod, a gynhelir fel arfer o fewn 35 diwrnod calendr i'r dyddiad y derbyniodd y Cyngor y gŵyn.
    - Hawl y gweithiwr i gael cydweithiwr, cynrychiolydd undeb llafur neu swyddog undeb llafur i fynd gydag ef.
    - Copi o Bolisi Cwynion y Cyngor.
    - Cadarnhad y gall tystion, os oes angen, fynychu'r cyfarfod (neu gyflwyno datganiadau tyst) ar ran y gweithiwr, ac y dylai'r gweithiwr roi enwau ei dystion cyn gynted â phosibl cyn y cyfarfod.

- Cadarnhad y bydd y gweithiwr yn darparu unrhyw dystiolaeth ategol i'r Cyngor cyn y cyfarfod, fel arfer gyda rhybudd o leiaf dau ddiwrnod.
- Canfyddiadau'r ymchwiliad, os cynhaliwyd ymchwiliad.
- Gwahoddiad i'r gweithiwr ofyn am unrhyw addasiadau rhesymol ar gyfer y gwrandawiad (er enghraifft os oes gan rywun gyflwr iechyd).

Y Cyfarfod Cwyn

15. Yn y cyfarfod cwyn:

- Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno aelodau'r is-bwyllgor i'r gweithiwr.
- Bydd y gweithiwr (neu ei gynrychiolydd) yn cyflwyno'r gŵyn ac yn rhoi'r dystiolaeth.
- Bydd y Cadeirydd yn gofyn cwestiynau i'r gweithiwr am y wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno ac yn ceisio deall pa gamau y mae'r gweithiwr yn dymuno i'r Cyngor eu cymryd.
- Gall unrhyw aelod o'r is-bwyllgor a'r gweithiwr (neu ei gynrychiolydd) holi unrhyw dyst.
- Bydd y gweithiwr (neu ei gynrychiolydd) yn cael cyfle i grynhoi ei achos.
- Gellir gohirio'r cyfarfod cwyn er mwyn caniatáu i'r is-bwyllgor ymchwilio ymhellach i unrhyw faterion a godwyd yn ystod y cyfarfod.

16. Bydd y Cadeirydd yn rhoi penderfyniad yr is-bwyllgor i'r gweithiwr yn ysgrifenedig, fel arfer o fewn 7 diwrnod calendr i'r cyfarfod, er y gall gymryd mwy o amser os oes angen ymchwiliadau pellach. Bydd y llythyr yn rhoi gwybod i'r gweithiwr am unrhyw gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd ac am hawl y gweithiwr i apelio.

Yr Apel

17. Os yw gweithiwr yn teimlo nad yw ei gŵyn wedi cael ei datrys yn foddhaol gan yr is-bwyllgor, gall gyflwyno apêl ysgrifenedig i'r Pwyllgor Staffio. Rhaid i'r Cyngor dderbyn yr apêl o fewn 7 diwrnod calendr i'r gweithiwr dderbyn penderfyniad yr is-bwyllgor, a rhaid iddi nodi'r rhesymau dros yr apêl.

18. Gellir cyflwyno apêl ar nifer o sailiau, er enghraifft:

- Methiant gan y Cyngor i ddilyn ei Bolisi Cwynion.
- Nad oedd y penderfyniad wedi'i gefnogi gan y dystiolaeth.
- Nad oedd y camau gweithredu a gynigiwyd gan yr is-bwyllgor yn ddigonol neu'n briodol.
- Bod tystiolaeth newydd wedi dod i'r amlwg ers y cyfarfod cwyn.
- Bod y penderfyniad gwreiddiol yn afresymol yng ngoleuni'r dystiolaeth oedd ar gael.

19. Bydd yr apêl yn cael ei gwrando gan banel o dri aelod o'r Pwyllgor Staffio nad ydynt wedi bod yn rhan o'r achos yn flaenorol. Mae'n bosibl na fydd digon o aelodau ar y Pwyllgor Staffio nad ydynt wedi bod yn rhan o'r achos. Os felly, bydd y panel apêl yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor, a gall gynnwys aelodau o'r Pwyllgor Staffio. Gall y Cyngor hefyd benodi partïon allanol os nad oes digon o gynghorwyr i ffurfio'r panel. Bydd y panel apêl yn penodi Cadeirydd o blith ei aelodau.

20. Bydd y gweithiwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig, fel arfer o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn yr apêl, am amser, dyddiad a lleoliad y gwrandawiad apêl. Fel arfer, cynhelir y gwrandawiad o fewn 35 diwrnod calendr i'r dyddiad y derbyniodd y Cyngor yr apêl. Bydd y gweithiwr yn cael gwybod y gall gael cydweithiwr, cynrychiolydd undeb llafur neu swyddog undeb llafur i fynd gydag ef.

21. Yn y gwrandawiad apêl, bydd y Cadeirydd yn:

- Cyflwyno aelodau'r panel i'r gweithiwr.
- Esbonio pwrpas y gwrandawiad, sef gwrando ar resymau'r gweithiwr dros apelio yn erbyn penderfyniad yr is-bwyllgor staffio.
- Esbonio'r camau y gall y panel apêl eu cymryd.

22. Gofynnir i'r gweithiwr (neu ei gynrychiolydd) egluro'r rhesymau dros yr apêl.

23. Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r gweithiwr y bydd yn derbyn penderfyniad y panel a'r rhesymau dros y penderfyniad yn ysgrifenedig, ynghyd â phryd y mae'n debygol o dderbyn y llythyr. Gall hyn fod o fewn 14 diwrnod calendr i'r gwrandawiad apêl, ond gall gymryd mwy o amser os oes angen cynnal ymchwiliadau pellach.

24. Gall y panel apêl benderfynu cadarnhau penderfyniad yr is-bwyllgor staffio neu roi penderfyniad gwahanol yn ei le.

25. Bydd penderfyniad y panel apêl yn derfynol.

Cadw Cofnodion

26. Bydd cofnodion sy'n ymwneud â chwynion yn cael eu cadw'n ddiogel, a bydd mynediad atynt yn cael ei gyfyngu i'r rhai sy'n rhan o'r broses. Bydd y cofnodion yn cael eu rheoli yn unol â Pholisi Diogelu Data a Pholisi Cadw Cofnodion y Cyngor.